# PWYLLGOR SAFONAU

**(Committee Room 1/2 - Port Talbot Civic Centre)**

**Aelodau'n bresennol:** **26 Gorffennaf 2019**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | C.L.Jones |
| **Is-gadeirydd:** | B.Richards |
| **Aelodau Annibynnol**: | L.Fleet ac T.Ward |
| **Aelodau NPTCBC:** | Cynghorydd S.E.Freeguard a/ac D.Keogh |
| **Aelodau'r Pwyllgor Cymunedol:** | Cynghorydd A.Carter |
| **Swyddogion yn bresennol:** | C.Griffiths a/ac T.Davies |

---

1. **DATGANIADAU O FUDD**

Gwnaeth yr aelodau canlynol ddatganiadau o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:

Alan Carter - Adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro - Eitem 6 - Eitem Breifat Frys, Atgyfeiriad gan Ombwdsmon Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru - gan ei fod yn dyst yn yr ymchwiliad ac Eitem 7 - Atgyfeiriad gan yr Ombwdsmon - gan ei fod yn Aelod o Gyngor Tref Castell-nedd.

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

**PENDERFYNWYD:** Cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

3. **CYLCH GWAITH Y PWYLLGOR SAFONAU A'R BLAENRAGLEN WAITH**

Trafododd yr aelodau y Blaenraglen Waith a ddosbarthwyd ar gyfer y Pwyllgor Safonau, ac unrhyw feysydd ychwanegol yr hoffai aelodau eu trafod. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro y gallai aelodau ychwanegu meysydd diddordeb at y Blaenraglen Waith ar unrhyw adeg.

**PENDERFYNWYD:** Nodi cylch gwaith y Pwyllgor Safonau a'r cefndir deddfwriaethol y mae'r Pwyllgor Safonau yn gweithredu oddi tano, a chymeradwyo'r eitemau i'w trafod a nodir ym mharagraff 4 yr adroddiad a ddosbarthwyd.

4. **EITEMAU BRYS**

Oherwydd yr angen i ymdrin yn awr â'r materion a gynhwysir yng Nghofnodion Rhif 5 a 7 isod, cytunodd y Cadeirydd y gellid eu trafod yng nghyfarfod heddiw fel eitemau brys yn unol ag Adran 100B (4) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Rheswm:

Oherwydd yr elfen amser.

5. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**PENDERFYNWYD:** Yn unol ag Adran 100A(4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gwaherddir y cyhoedd o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 18 a 14 Adran 14 o Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

6. **CANIATÁU GOLLYNGIAD**

Ystyriodd aelodau gais am ollyngiad amrywiol.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo'r cais am ollyngiad a nodwyd ym mharagraff 1.3.2 o'r adroddiad a ddosbarthwyd yn yr amgylchiadau a nodir yn Rheoliad 2 (ch) a

(d) Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 i siarad a phleidleisio fel y'u hamlinellir yn yr Atodlen yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, a bod y gollyngiad yn berthnasol i'r Pwyllgor Safonau sy'n dilyn y cyfarfod Blynyddol yn 2022.

7. **CYFREITHIOL GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU**

(Ar y pwynt hwn o'r cyfarfod, ailddatganodd A Carter ei fudd, a gadawodd y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth a'r pleidleisio am hynny)

Trafododd aelodau'r achos yn erbyn y cyn- Gynghorydd D L ac a ddylid bwrw ymlaen â'r ymchwiliad.

**PENDERFYNWYD:** Na fyddai parhau â'r ymchwiliad i'r cyn-gynghorydd D L er budd y cyhoedd, ac na ddylid bwrw ymlaen â'r mater.

8. **CYFREITHIOL GAN OMBWDSMON**

**PENDERFYNWYD:** Nad oedd y cynghorydd S M wedi cydymffurfio â Chôd Ymddygiad yr awdurdod dan baragraff 6(1)(a) (dwyn anfri ar swyddfa'r aelod neu'r awdurdod yn rhinwedd ei swydd neu fel arall) ac y dylid ei atal o'i swydd am bedwar mis.

**CADEIRYDD**